



Bwletin Awdurdod S4C **Cyfarfod 336 – 16 Medi 2010** **S4C, Caerdydd**

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2010.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 335

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 335.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd JWW ei adroddiad.

Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu i estyn cydymdeimlad i deulu Lowri Gwilym a fu farw'n sydyn ym mis Gorffennaf.

Nododd ei fod wedi mynychu noson Harri Parri ym Mynytho a lansiad Pen Talar yn Y Tymbl. Roedd aelodau eraill wedi mynychu digwyddiadau yn Ninbych, Crymych ac Aberaeron.

Roedd wedi mynychu cyfarfod yn San Steffan gyda nifer o aelodau o Dy'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

Esboniodd y byddai'n mynychu cyfarfod i gadeiryddion cyrff cyhoeddus yn y DCMS ddydd Iau nesaf er mwyn derbyn diweddariad ar waith yr adran fel rhan o broses yr adolygiad gwariant cynhwysfawr.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

Trafodaethau gyda'r DCMS

Esboniodd ei fod wedi cyfarfod gyda swyddogion DCMS i drafod yr adolygiad gwariant cynhwysfawr. Roedd y prif weithredwr wedi ffurfio grŵp o fewn S4C i'w gynorthwyo gyda'r gwaith o lunio dogfen i'w gyflwyno i'r DCMS yn amlinellu strategaeth S4C ar gyfer y dyfodol. Cyflwynodd ddogfen drafft yn seiliedig ar waith y grŵp. Bydd drafft pellach o'r ddogfen yn cael ei gylchredeg i'r Aelodau i'w ystyried a'i gymeradwyo.

4. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu

Cyflwynodd y prif weithredwr yr adroddiad. Nododd bod 1.4m o bobl wedi gwyllo darpariaeth S4C o wyliau'r haf. Roedd hyn yn gynydd o 44% ar gyrhaeddiad 2009. Esboniodd bod nifer defnyddwyr gwasanaeth Clic hefyd wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod yr un cyfnod.

Cyfeiriodd at daith lansiad Clwb Cyw, a'r ddarpariaeth newydd ar benwythnosau i blant meithrin. Roedd y lansiad a'r gwasanaeth wedi cael derbyniad cynnes iawn.

5. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ei adroddiad. Esboniodd bod ei adran wedi bod yn gweithio ar gynlluniau newydd i greu perthynas agosach rhwng S4C a'i chynulleidfa, a chyflwynodd syniadau ar gyfer fformat nosweithiau gwylwyr ar gyfer y dyfodol.

Esboniodd hefyd fod swyddogion yn gweithio ar gynlluniau i drefnu digwyddiad ym maes cyfryngau newydd er mwyn rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau S4C fynegi eu barn ar ddatblygiad gwasanaethau S4C i'r dyfodol.

6. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cyllid misol
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adolygiad o lywodraethiant gorfforaethol S4C